**Argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bathodyn Glas 2015:**
**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er mwyn cyflawni argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu Grŵp Gweithredu'r (IG) ag aelodau sydd eto i'w gadarnhau. Wrth i'r rhaglen waith fynd rhagddi, bydd rhagor o weithgorau'n cael eu sefydlu.

| Argymhelliad | Ymateb LlC | Sylwadau |
|---|---|---|
| (1) **I gael cysondeb, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio ffyrdd y gall corff canolog gydgysylltu'r ffordd y mae'r cynllun Bathodyn Glas yn cael ei gynnal ledled Cymru. Gallai corff canolog helpu awdurdodau lleol i weithredu'r broses o'i dechrau i'w diwedd.** Dylai'r corff cyflenwi fod yn gorff preifat, cyhoeddus neu o'r trydydd sector. | Ei dderbyn mewn egwyddor | Bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio'r achos busnes a'r opsiynau ar gyfer sefydlu corff canolog ar gyfer cyd-gysylltu'r cynllun Bathodyn Glas ar draws Cymru ac mae'n bosibl y bydd hynny'n gofyn am sefydlu pwerau deddfu sylfaenol. |
| (2) **Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu'r fframwaith ddeddfwriaeth fel ei bod yn fwy tryloyw** | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y rheoliadau ynghylch buddiannau atgyfnerthu. |
| (3) **Dylai bathodynnau a ddosberthir yng Nghymru barhau i gael eu darparu yn rhad ac am ddim i ymgeiswyr cymwys.** | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno a bydd yn parhau i ddefnyddio'r Grant Cymorth Refeniw i ariannu'r Bathodynnau Glas yng Nghymru. |
| (4) **Dylai'r pecyn cymorth gael ei gadw ac mae'n ddarostyngedig i welliannau parhaus, os oes angen am hynny:** | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â phanel o arbenigwyr ac yn cael cyngor ganddyn nhw i'w helpu i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer atgyfeirio ymgeiswyr i'r Gwasanaeth Cynghori Annibynnol (IAS). Bydd y pecyn cymorth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd yn ystyried materion |

| | | |
|---|---|---|
| • **Gostwng y trothwy ar gyfer atgyfeirio ymgeiswyr i gael eu hasesu ymhellach gan "Wasanaeth Cynghori Annibynnol"**<br>• **Cynnwys Lwfans Presenoldeb fel ffactor cyfrannu a dyfarnu lefel o bwyntiau**<br>• **Y panel i adolygu'r drefn yn rheolaidd** | | penodol fel atgyfeirio ymgeiswyr sy'n cael Lwfans Presenoldeb. |
| (5) **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi system fathodyn dros-dro ar waith lle mae'r amodau cymhwysol yn debygol o bara o leiaf 12 mis.** | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ymestyn meini prawf cymhwysedd y Bathodyn. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Rhagfyr ac fe wneir is-ddeddfwriaeth arno yn sgil y canlyniad. |
| (6) **Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu dangos ei fod yn gymwys drwy'r cais desg a'r broses asesu ond maen nhw wedi cyrraedd pwynt trothwy penodol trwy'r Pecyn Cymorth, dylen nhw gael eu cyfeirio at therapydd galwedigaethol ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb** | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru'n credu nad yw'n angenrheidiol cynnal asesiad wyneb yn wyneb â phob ymgeisydd a chyn belled a'i fod yn ymarferol bydd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried gan y panel o arbenigwyr a ddaw ynghyd i ystyried y pecyn cymorth. |
| (7) **O ganlyniad, rydym yn argymell nad oes raid i asesiad gan Feddyg Teulu fod yn rhan o'r broses o ymgeisio am Fathodyn Glas o hyn o ymlaen.** | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch asesu cymhwysedd y Bathodyn. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Rhagfyr ac fe wneir is-ddeddfwriaeth arno yn sgil y canlyniad. |
| (8) **Llywodraeth Cymru i brif ffrydio'r broses ymgeisio lle mae'r ymgeisydd wedi cael bathodyn yn y gorffennol.** | Derbyn | Bydd Lywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar symleiddio'r broses o ymgeisio am Fathodyn. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Rhagfyr. |
| (9) **Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni** | Derbyn | Mae cyfathrebu'n cael ei ystyried yn elfen allweddol sy'n galluogi pobl i |

| | | |
|---|---|---|
| **strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i hanelu at ddeiliaid bathodynnau a'r cyhoedd ehangach er mwyn pwysleisio rheolau a chyfrifoldebau'r cynllun, arferion gorau o ran cynnal pob agwedd ar y cynllun a'i orfodi.** | | ddeall pa mor bwysig yw'r cynllun hwn i ddeiliaid bathodynnau ac i atal pobl rhag camddefnyddio a cham-drin y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn ac mewn ymateb iddo, bydd wedi datblygu strategaeth gyfathrebu erbyn mis Ionawr 2016. |
| (10) **Rydym yn argymell bod yna bolisi gorfodi cadarn a llym ledled Cymru.** | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd yr argymhelliad hwn. Bydd yn datblygu ac yn hybu'r gwaith o roi polisi gorfodi ledled Cymru ar waith ac yn cydweithio â rhanddeiliad er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n camddefnyddio lleoedd parcio dynodedig. |
| (11) **Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllaw statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal yr hyfforddiant a'r adnoddau priodol ar gyfer gwella dulliau gorfodi'r cynllun yng Nghymru** | Ei dderbyn mewn egwyddor | Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhelliad hwn ac yn cynnwys y manylion hyn wrth ddatblygu polisi gorfodi fel y'i amlinellir yn argymhelliad 10. |
| (12) **Dylai Llywodraeth Cymru weithio â'r gweithredwyr i hybu gorfodi mewn meysydd parcio preifat** | Derbyn | Cydnabyddir bod gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfyngedig yn y maes hwn ond bydd yn cydweithio â gweithredwyr meysydd parcio preifat a chonsortiwm manwerthu Cymru i hybu gorfodi yn erbyn camddefnyddio meysydd parcio dynodedig cyn belled â'i bod hi'n ymarferol i wneud hynny. |
| (13) **Llywodraeth Cymru i adolygu consesiynau'r cynllun, er enghraifft y lwfans terfyn i barcio ar linellau melyn dwbl** | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio â rhanddeiliaid i archwilio effeithiau cyflawni'r argymhelliad hwn. Bydd unrhyw newidiadau'n ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiad o effeithiau perthnasol, yn enwedig Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. |